# Astudiaeth Achos Deorfa Wledig

## Cyflwyniad

Credir fod nifer o ffyrdd o atgyfnerthu'r economi a'r iaith ar yr un pryd, yn hytrach na'u gweld fel problem.

Mae gwersi i'w dysgu gan rannau eraill o Ewrop ac mae angen i weithio mewn ffyrdd newydd.

Mae tri cam strategol felly wedi cael eu hargymell:

- Sefydlu sefydliad datblygiad economaidd yn seiliedig ar Udaras na Gaeltachta'
- Efelychu gwaith Andoain Kulturpark o Euskadi mewn tair ardal yng nghanolbarth Cymru, gan ddechrau ym Machynlleth
- Datblygu Deorfa Wledig fel rhan o Barc Menter

Bydd gwaith y sefydliad datblygu yn cynnwys gwaith sy'n seiliedig ar hyrwyddo:

- Menter economaidd gynhenid
- Datblygiad cymunedol
- Yn seiliedig ar egwyddorion ieithyddol

Mae'r gallu i rwydweithio, rhannu syniadau, rhannu adnoddau, ac i ddatblygu mentrau ar y cyd yn cael ei gydnabod mewn datblygiad economaidd sy'n cael ei wneud i gyflawni'r diben. O ran yr iaith Gymraeg hefyd, mae angen am barthau diwylliannol newydd, a'r cyfle i unigolion a chwmnïau i rannu adnoddau a datblygu cyfleoedd newydd yn naturiol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Y cam cyntaf fydd efelychu model Andoain Kulturpark [www.kulturparkea](www.kulturparkea) o Euskadi/Gwlad y Basg, gyda'r cynnig i ddatblygu safle ym Machynlleth, sy'n cael ei ddefnyddio erbyn hyn fel marchnad ddefaid ac a oedd yn rhan o Travis Perkins yn flaenorol. Roedd y safle hwn wedi'i sicrhau ar gyfer Tesco, sydd wedi tynnu'n ôl o'r datblygiad erbyn hyn.

Mae'r lleoliad ym Machynlleth yn strategol, gan ei fod yn cysylltu rhwng Ceredigion a Gwynedd a gan ei fod o fewn cyrraedd ym Mhowys, gyda mynediad hawdd at gyfleusterau ym Mhrifysgol Aberystwyth, ond hefyd yn gallu gweithio gyda'r safle newydd a ddeilliwyd ac a ddatblygwyd gan Brifysgol Bangor ar Ynys Môn.

## Yr Her

Y brif her a fu oedd cyflymder y datblygiad. Roedd hyn oherwydd ei bod yn cymryd amser i gael mynediad at fuddsoddiad cyfalaf ar gyfer datblygiad tymor hir, er mwyn datblygu safle integredig.

Hefyd, ni ellid rhyddhau'r safle cychwynnol h.y. adeilad Hyddgen ar y safle ysgol mewn amser gan fod yr adeiladwyr ar gyfer yr ysgol newydd, sef Dawnus Cyf, wedi mynd i ddwylo'r

derbynnydd, ac oherwydd hynny, nid oeddynt yn gallu adeiladu'r ysgol newydd a rhyddhau adeilad Hyddgen mewn amser.

## Yr Ateb

Mae'r ateb wedi bod i ganolbwyntio egni ar ddatblygu Canolfan Owain Glyndŵr fel cyfleuster a chanolfan adnoddau busnes yn y lle cyntaf. Roedd hefyd yn cynnwys gweithio gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol wrth ddatblygu cynlluniau gyda phenseiri ar gyfer y safle hwn. Roedd hyn wedi sicrhau £10,000 oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri ac mae erbyn hyn mae'n sail prosiect dau gam ar gyfer £50,000 a buddsoddiad cyfalaf o £550,000. Yn y cyfamser, ac ar y cyd â hyn, maen nhw hefyd wedi canolbwyntio ar ddatblygu a defnyddio adeilad Hyddgen ar safle'r ysgol yn y dyfodol fel y datblygiad a'r defnydd posibl o safle'r Farchnad ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd fel rhan o Fargen Twf Canolbarth Cymru. Yn naturiol, byddai'r ddwy elfen hon yn cymryd yn hirach ond maent yn ddilyniant naturiol i'r gwaith hwn hyd yn hyn.

## Y Budd

Mae'r buddion yn cynnwys:

- Darparu sylfaen ar gyfer clwstwr o fentrau
- Galluogi busnesau newydd i ddechrau
- Creu canolfan ar gyfer gweithgareddau iaith Gymraeg
- Galluogi datblygu prosiect Treftadaeth a ariennir gan y Loteri

## Y Canlyniad

Mae'r ateb positif wedi cynnwys:

- Pencadlys yng Nghanolfan Owain Glyndŵr yn y tymor agos
- Galluogi gwneud gwaith pellach ar gyfer y tymor hirach ar safle Hyddgen
- Galluogi cynnwys gwaith o fewn Bargen Twf Canolbarth Cymru

## Deilliannau/Canlyniadau'r Prosiect

| Deilliant (Dangosydd Lefel Achos) | Cyflawnwyd |
|---|---|
| Nifer yr astudiaethau dichonolrwydd | 0 |
| Nifer y rhwydweithiau a sefydlwyd | 0 |
| Nifer y swyddi a ddiogelwyd | 7 |
| Nifer y gweithgareddau peilot a gynhaliwyd/ a gefnogwyd | 0 |
| Nifer yr hybiau cymunedol a grewyd | 0 |
| Nifer y rhanddeiliaid a gafodd eu cynnwys | 30 |

| | |
|---|---|
| Nifer y cyfranogwyr a gefnogwyd (digwyddiadau codi ymwybyddiaeth yn unig) | 20 |

| Deilliannau | Cyflawnwyd |
|---|---|
| Nifer y swyddi a grewyd | 0 |
| Nifer y cymunedau sy'n elwa | 0 |
| Nifer y busnesau sy'n elwa | 12 |

## Manylion Cyswllt y Prosiect

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag: Elwyn Vaughan, post@mentermaldwyn.org

## Logos Partneriaid/ Arianwyr Cyfatebol

## Manylion y Prosiect

| Data Allweddol | Manylion y Prosiect |
|---|---|
| Cyflwynwyd gan: | Menter Maldwyn |
| Dyddiad Dechrau: | 18/11/2016 |
| Dyddiad Diwedd: | 31/03/2018 |
| Thema LEADER: | 2: Hwyluso datblygu partneriaethau busnes heb fod yn fasnachol a chadwynni cyflenwi byr |

## Manylion Ariannol

| Disgrifiad | Swm | % |
|---|---|---|
| Cyfanswm y Gwariant: | £30776.35 | 100.00% |
| Nawdd y Gronfa Datblygu Gwledig: | £24120.00 | 78.3719% |

| | | |
|---|---|---|
| Nawdd Cyfatebol: | £6656.35 | 21.6281% |

Astudiaeth achos wedi'i gwblhau ar: 07/08/2020